# Cylchlythyr

Mai 2025

**Ymweliad Estyn**

Yn dilyn ymweliad Interim Estyn yn ddiweddar cafodd y llythyr isod eu gyhoeddi. Darllenwch eu canfyddiadau am llwyddiannau'r ysgol yn erbyn blaenoriaethau ein arolwg diwethaf.


[Llythyr Ymweliad Interim](#)

## Digwyddiadau i ddod

5.5.25 - Gwyl y Banc
14.5.25 - Go IT - Blwyddyn Bl 5 a 6
16.5.25 Diwrnod Seren a Sbarc
14-22.5.25 Fe fydd disgyblion Bl 2-6 yn ymgymryd a Phrofion Cenedlaethol Llywodraeth Cymru.
23.5.25 - Diwrnod codi arian Tafwyl
26-30.5.25 - Hanner Tymor

## Llongyfarchiadau Mr Cleverley

Llongyfarchiadau mawr i Mr Cleverley sydd yn cynrychioli Tim Hoci Cymru wythnos nesaf yn Iwerddon. Bydd yn chwarae yn erbyn Lloegr, Iwerddon a'r Alban. Pob lwc!




## Llwyddiannau/Digwyddiadau



**Eisteddfodau**

Llongyfarchiadau mawr i 'r holl ddisgyblion a oedd wedi cystadlu yn Eisteddfod Cylch Dwyrain Caerdydd. Roedd gweld y disgyblion yn cynrychioli ein hysgol yn arbennig.
Llongyfarchiadau enfawr hefyd i Gor yr Ysgol a oedd yn llwyddiannus yn Eisteddfod Sir Caerdydd a'r Fro. Ymlaen at Margam a nhw i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd.

**Kerbcraft**

Mae Blwyddyn 2 wedi elwa ar ddysgu sut i fod yn ddiogel allan ar ur heol gyda gweithgareddau gan Kerbcraft



**Gweithdy Bardd Plant Cymru**

Bu Blwyddyn 5 a 6 yn mwynhau sesiwn gan yr awdur Gwenan Evans lle buont yn datblygu sgiliau ysgrifennu stori.

## Ffrindiau

06.06.25: Diwrnod dillad eu hunain – cyfraniad tuag at jariau o lawenydd neu arian tuag at y Ffair Haf
26.06.25: Ffair Haf





**DIOLCH**

Diolch yn fawr i'r GRhA am y rhoddion yma i'r ysgol yn ystod yr wythnosau diwthaf. Rydym yn hynod ddiolchgar





# Cylchlythyr

Mai 2025


## Llwyddiannau/Digwyddiadau



**Trip Bl 1 a 2**
Cafodd disgyblion Blwyddyn 1 a 2 ddiwrnod bendigedig yn creu pitsas ac yn ymweld ag ardaloedd diddorol y ddinas ar eu taith diweddaraf







**Storey Arms**
Dechreuad da i dymor yr haf i ddisgyblion Blwyddyn 5 ar ol iddynt dreulio amser yn cael antur arbenning yn Storey Arms. Roeddynt wedi trio pob weithgaredd yn frwdfrydig da iawn chi!



**Cystadleuaeth Tag Rygbi**
Da iawn i'r Tim Tag Rygbi. Diwrnod llwyddiannus gyda sgiliau newydd yn cael ei ddatblygu'n wych!

**Parti Tedis**
Cafodd y dosbarth Derbyn a Meithrin llawer o hwyl yn paratoi ar gyfer parti tedis. Roedd hyd yn oed angen siopa am fwyd.



## Presenoldeb

Presenoldeb yr ysgol hyd yn hyn yw
94.36%
Ein targed yw 95%

Mae presenoldeb cyson yn holl bwysig er mwyn sicrhau bod eich plentyn/plant yn cyrraedd eu llawn potensial

## Cofiwch

**Cylch Ti a Fi**
Cofiwch bod sesiwn Cylch Ti a Fi bob prynhawn dydd Iau yn y dosbarth Meithrin

**Mabolgamau**
19.06.25 Meithrin - Bl 2 y bore
19.06.25 Bl 3 - Bl 6 y prynhawn

**Noson Ddiwylliannol Ysgolion y Clwstwr**
3.7.25 Fel rhan o ddathliad doniau disgyblion y clwstwr bydd ein disgyblion yn perfformio nifer o eitemau yn Noson Ddiwylliannol Ysgol Bro Edern. Cadwch y dyddiad yn glir.

**Sioe Bl 6**
**8.7.25** Eleni sioe blwyddyn 6 fydd Dewin yr Os yn neuadd Ysgol Bro Edern. Bydd disgyblion Blwyddyn 3 - 5 yn cefnogi y sioe ar y noson. Cadwch y dyddiad yn glir.

**Instgram yr Ysgol**
**ysgol_penygroes**